**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

5ed Medi, 2024

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Michael Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Gwenno Emlyn Huws, Jess Williams (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Clifford Williams (Garndolbenmaen), Iddon Edwards (Penmorfa) a Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)

**Datgan Buddiant**

Gwilym Evans – Eitem 14
Megan Lloyd Williams – Eitem 14

**Penderfyniadau**

Safle Bws Bryncir

Derbyniwyd e-bost gan etholwr yn nodi ei bryderon am ddiogelwch safle bws Bryncir sydd yn mynd i gyfeiriad Caernarfon. Soniodd yn yr e-bost bod trigolion yn gorfod camu i'r ffordd fawr er mwyn gwneud eu hunain yn weledol i'r gyrwyr bws. Clerc i gysylltu ag Unllais am gyngor ac i drefnu cyfarfod safle gyda Merfyn Morris o'r Asiant Cefnffyrdd ac efallai cynrychiolaeth o'r Uned Drafnidiaeth Gyhoeddus.

Ceisiadau Cynllunio:

**Gadawodd GE a MLW y cyfarfod pan drafodwyd y cais cynllunio yma**.

**Rhif Cais**: NP2/16/454B
**Lleoliad:** Tir yng Nghefn Coch Isaf, Cwm Ystradllyn. LL51 9AZ
**Disgrifiad:** Amrywio Amod 3 (Cyflwyno CEMP) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP2/16/454A dyddiedig 02/09/2020 – ***Dim gwrthwynebiad***.
**Ymunodd GE a MLW yn ôl gyda'r cyfarfod.**

**Rhif Cais:** C24/0646/36LL

**Lleoliad:** The Old Cow Sheds, Pentrefelin, LL52 0RB
**Disgrifiad:** Newid defnydd uned wyliau’r Cow Shed i dŷ annedd/prif gartref (C3) a chadw defnydd Little Barn yn uned wyliau (C6). ***Dim gwrthwynebiad ar yr amod bod Amod lleol 106 yn cael ei roi a'u bod yn newid yr enwau ar yr eiddo i enwau Cymraeg.***